

Bwletin Awdurdod S4C

Cyfarfod 309 – 20 Mawrth 2008

S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2008.

1. Adroddiad ar Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc S4C

Cafwyd diweddariad gan Rhian Gibson o'r cynlluniau ar gyfer lansio'r gwasanaeth meithrin. Nododd bod tendr ar gyfer darparu dolenni cyflwyno wedi ei gyhoeddi ac y byddai cyfweiliadau yn cymryd lle wythnos nesaf.

Nododd fod taith arbennig wedi ei drefnu ar gyfer y tair wythnos yn dilyn Eisteddfod yr Urdd a fyddai'n ymweld ag ysgolion ledled Cymru er mwyn hyrwyddo lansiad y ddarpariaeth meithrin. Roedd deunyddiau cyhoeddusrwydd pwrpasol yn cael eu creu a fyddai'n cynnwys llyfrau lliwio i blant a thafenni i rieni iaith Gymraeg a Di-Gymraeg.

2. Adroddiad y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd

Cyfeiriodd Eira Davies at adroddiad y Cadeirydd gan nodi y byddai'n annerch y gynhadledd WITBC (World Indigenous Television Broadcasting Conference 2008) yn Auckland, Seland Newydd, ddydd Mercher nesaf.

Roedd y Cadeirydd ynghyd â Chris Llewelyn wedi cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, Paul Murphy, yn ddiweddar.

Nododd Eira Davies ei bod wedi mynychu cynadleddau gwanwyn Llafur, y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llandudno. Yn ogystal roedd wedi mynychu sawl cinio Dydd Gŵyl Dewi ac wedi derbyn adborth am arlwy S4C.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd Rhian Gibson adroddiad y Prif Weithredwr ar ei rhan.

Cyfeiriodd at gam nesaf adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Cyfeiriodd at uniad cwmnïau Opus a Nant. Enw'r cwmni newydd yw Rondo Media.

4. Cynllun Rhaglenni o dan y Bartneriaeth Strategol gyda'r BBC

Nodwyd y Cynllun Rhaglenni

5. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Cofnodion Pwyllgor Cynnwys
- Rhaglen Waith yr Awdurdod 2008
- Tabl Digwyddiadau am 2008